

CANLLAWIAU TEITHIO’N DDIOGEL

CYNNWYS

1. **CYFLWYNIAD**
2. **CYFRIFOLDEB UWCH REOLWYR / CYFRIFOLDEB STAFF UNIGOL**
3. **TRWYDDEDAU GYRRU, TYSTYSGRIFAU YSWIRIANT AC M.O.T.**
4. **ASESIADAU RISG**
5. **DAMWEINIAU WRTH YRRU AR FUSNES CYNNAL**
6. **DELIO GYDA PHWYNTIAU GYRRU COSB**
7. **GYRRU’N DDIOGEL, FFONAU SYMUDOL AC ERAILL**
8. **UCHAFSWM ORIAU WRTH Y LLYW**
9. **TROSEDDAU AM BARCIO’N ANGHYFREITHLON**
10. **DULLIAU GYRRU CYFFREDINOL**
11. **GOR-YRRU**
12. **DULLIAU ERAILL O DEITHIO AR FUSNES CYNNAL**

CANLLAWIAU TEITHIO'N DDIOGEL

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas y canllawiau hyn yw ceisio cynorthwyo staff CYNNAL i deithio'n ddiogel. Maent yn rhoi arweiniad clir ar gyfrifoldebau gwahanol staff, y tasgau sydd angen eu cwblhau ymlaen llaw, ac yn darparu cyngor cyffredinol i staff ar deithio'n ddiogel.

Mae gan reolwyr llinell rôl allweddol yn y drefn. Hwyl yw pwynt cyswllt agosaf y staff hynny sydd yn defnyddio eu cerbydau personol ar fusnes CYNNAL, ac felly hwyl sydd yn y safle gorau i sicrhau bod yr unigolion hynny yn teithio mewn modd diogel ac effeithlon.

2. CYFRIFOLDEBAU UWCH REOLWYR

Pan fo angen i aelod o staff CYNNAL wneud siwrnai i gyflawni eu dyletswyddau, cyfrifoldeb y rheolwr llinell yw cymeradwyo'r daith. Yn amlwg, ni fydd raid trafod a chymeradwyo pob taith unigol a wneir gan y staff, gan nad yw hynny'n ymarferol, ond cael dealltwriaeth gyffredinol am deithiau a wneir yn rheolaidd. Dylid cael trafodaethau penodol pan fydd staff yn bwriadu teithio ar siwrnai sydd allan o'r cyffredin. Dyma'r math o ystyriaethau a ddylid rhoi sylw iddynt:

- ystyried yn y lle cyntaf os oes angen i'r aelod staff deithio o gwbl;
- gwirio pa **fodd** o deithio sydd fwyaf effeithlon, a pha **daith** sydd fwyaf effeithlon;
- sicrhau bod asesiadau risg ar gyfer teithio ar fusnes CYNNAL wedi eu cwblhau a'u cofnodi, a bod aelodau staff yn ymwybodol o gynnwys yr asesiadau risg hynny;
- sicrhau bod staff sydd wedi bod mewn damwain ffordd neu mewn digwyddiad allai fod wedi arwain at ddamwain tra ar fusnes CYNNAL, yn cwblhau ffurflen Adrodd am Ddamwain a'i gyrru at y Swyddog Personél.

CYFRIFOLDEB STAFF UNIGOL

Mae gan unigolion gyfrifoldebau penodol am les, iechyd a diogelwch eu hunain, eu cydweithwyr ac unrhyw un arall y dânt i gysylltiad â hwyl yn eu gwaith. O ran teithio a gyrru, mae'n gyfrifoldeb ar staff unigol i :

- yrru mewn modd diogel a gofalus ar bob achlysur, gan dalu sylw digonol i yrwyr eraill, a chan gadw at reoliadau a gofynion cyfreithiol, gan gynnwys Cod y Ffordd Fawr;
- gymryd gofal penodol wrth agosau a gyrru ar dir ysgolion, a chadw at unrhyw reolau a osodir gan ysgolion unigol o ran cael mynediad ar dir ysgolion yn ystod cyfnodau egwyl y bore / canol dydd / prynhawniau, a'r cyfnodau y bydd plant yn cyrraedd a gadael yr ysgol;
- gyflwyno eu trwyddedau gyrru, tystysgrifiau yswiriant a thystysgrifau M.O.T. yn unol â gofynion y cwmni;
- ddatgan gwybodaeth am unrhyw ddedfrydau gyrru neu newidiadau eraill i'w manylion trwydded mor fuan ag sydd modd;
- sicrhau bod eu cerbydau mewn cyflwr diogel a chyfreithlon i'w defnyddio, gan wirio cyflwr y cerbyd cyn cychwyn ar unrhyw siwrnai;
- gynllunio unrhyw siwrnai i sicrhau bod cyfle digonol ar gyfer cyfnodau o seibiant;
- adrodd yn syth i'w rheolwr llinell am unrhyw bwyntiau trosedd a dderbynnir;
- adrodd yn syth am unrhyw ddamweiniau tra ar fusnes CYNNAL;
- adrodd yn syth am unrhyw gyflwr meddygol a all arwain at waharddiad rhag gyrru;
- adrodd yn syth am unrhyw effeithiau a all godi wrth gymryd cyffuriau meddygol;
- bod yn ymwybodol o'r canllawiau ar gyfer uchafswm oriau a ddylid eu treulio tra'n gyrru;
- gadw at bolisiau CYNNAL mewn perthynas â'r defnydd o ffonau symudol tra'n gyrru, ysmegu mewn cerbydau, ac unrhyw bolisi perthnasol arall.

3. TRWYDDEDAU GYRRU, TYSTYSGRIFAU YSWIRIANT A M.O.T.

Mae disgwyl i staff CYNNAL gyflwyno'r drwydded yrru a'r dystysgrif yswiriant a MOT cyfredol yn flynyddol. Bydd y Swyddog Personél yn trefnu'r awdit yma.

Ni fydd posib rhoi caniatâd i'r aelod staff ddefnyddio cerbyd personol i ddibenion busnes CYNNAL heb iddo/iddi gyflwyno'r dogfennau gyrru ac arwyddo'r Ffurflen Datganiad Cerbyd

4. ASESIDAU RISG

Yn yr un modd ag unrhyw risg arall, mae'n hanfodol bwysig fod CYNNAL yn dileu neu leihau cyn belled a bo'n ymarferol bosib unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â theithio ar fusnes y cwmni. Heb wneud hynny, ni fydd CYNNAL yn arfer ei gyfrifoldebau iechyd a diogelwch tuag at ei staff.

Yn amlwg, ni fydd raid cwblhau asesiad risg manwl ar gyfer pob taith gan nad yw hynny'n ymarferol, ond yn hytrach dylid rhoi ystyriaeth benodol i risgiau posib pan fydd staff yn bwriadu teithio ar siwrnai sydd allan o'r cyffredin e.e. mynychu cynadleddau yn Llandrindod, Caerdydd, Birmingham ayyb

Dylid gofyn y cwestiynau canlynol wrth asesu unrhyw risgiau allai fod ynghlwm â theithio ar fusnes CYNNAL.

Asesu'r daith

- Ydych chi fodlon bod y ffordd y bwriedir ei chymryd yn **ddiogel**?
- Ydych chi'n fodlon bod gan yr aelod staff **ddigon o amser** er mwyn cwblhau'r daith yn ddiogel, ac na fydd yn gosod ei hun neu eraill mewn sefyllfa o risg trwy wneud y daith ar frys?
- Os yw'r daith yn bell, ac yn golygu bod rhaid i'r unigolyn yrru yn hwyr yn y dydd ac yntau/hithau wedi blino, oes lle i ystyried **trefnu gwesty** i'r unigolyn?
- Ydych chi'n fodlon bod y **tywydd** yn ffafriol ar gyfer gyrru? Oes posib gohirio'r daith os nad yw'r tywydd yn ffafriol?
- Ydych chi wedi cyngori'r aelod staff i gymryd **seibiant** o bryd i'w gilydd? (Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn argymhell bod gyrwyr yn cymryd toriad o chwarter awr bob dwy awr o yrru.)
- Os yw'r daith yn bell, fyddai defnyddio **trafnidiaeth gyhoeddus** yn opsiwn gwell?

Asesu'r unigolyn

- A yw **trwydded** yrru'r unigolyn yn un gyfredol? Hynny yw, ydych chi'n berffaith siŵr fod yr unigolyn yn gymwys i yrru, a heb gael ei wahardd rhag gyrru am unrhyw reswm?
- Ydych chi'n fodlon bod yr aelod staff yn **ymwybodol o bolisi** CYNNAL ynghylch gyrru ar fusnes y cwmni?
- Oes angen ystyried rhoi **hyfforddiant** gyrru ychwanegol i'r aelod staff e.e. am ei fod/ei bod wedi bod ynghlwm â nifer o ddamweiniau ceir yn ddiweddar?
- A yw'r aelod staff yn ymwybodol o **berylglon blinder** wth yrru?
- A yw'r aelod staff yn ymwybodol o beth ddylai/dylai ei wneud os yw'n **teimlo'n gysglyd**?
- A oes rheswm i feddwl nad yw'r aelod staff yn **ddigon iach** i yrru'n ofalus, ac nad yw'n rhoi ei hun nag eraill mewn perygl wrth yrru?
- A yw'r aelod staff yn ymwybodol na ddylid gyrru os yw'n cymryd cwrs o **gyffuriau** allai effeithio ar ei allu i yrru?

Nid oes raid ystyried yr holl faterion uchod ar gyfer pob taith.

Mae'n gwbl ddbynnal ar natur y daith y bydd yr aelod staff yn ei chymryd.

5. DAMWEINIAU WRTH YRRU AR FUSNES CYNNAL

Os yw aelod staff mewn damwain ar y ffordd, yna mae angen iddynt gwblhau ffurflen Adrodd am Ddamweiniau a'i hanfon at y rheolwr llinell. Yn yr un modd, dylent hysbysu eu rheolwyr llinell pe bai bron iddynt gael damwain, fel bo'r digwyddiad hwn yn cael ei gofnodi ac ystyried fel rhan o'r adolygiad o beryglon teithio.

6. DELIO GYDA PHWYNTIAU GYRRU COSB

Os yw unigolyn yn derbyn 9 pwynt cosb, dylai'r rheolwr llinell wneud asesiad risg, a all arwain at hyfforddiant pellach i'r staff neu newid yn nyletswyddau'r unigolyn.

Dylid ystyried pwyntiau cosb am oryrru yng nghyd-destun difrifoldeb y drosedd. Dylai pwyntiau am fân-droseddau gyrru fod yn fater o drafodaeth - fodd bynnag, mae goryrru difrifol, dyweder dros 10mya uwchben y cyfyngiad gyrru yn fater a ddylid ei asesu, ac fe all arwain at asesiad pellach o arddull gyrru'r unigolyn. Bydd troseddau mwy difrifol fyth, megis gyrru heb 'Due Care and Attention' yn golygu asesiad pellach cyn y gall yr unigolyn yrru eto ar fusnes CYNNAL.

7. GYRRU'N DDIOGEL, FFONAU SYMUDOL AC ERAILL

Dylai pob person sy'n gyrru ar fusnes CYNNAL fod yn ymwybodol o bolisi'r cwmni o ran defnyddio ffonau symudol pan yn gyrru.

RHAID i'r staff ddilyn y polisi tra'n gyrru ar fusnes CYNNAL, ac fe'u cynghorir i weithredu'n gyfreithiol ar bob achlysur. Mae defnyddio ffôn symudol tra'n gyrru yn drosedd, ac fe all arwain at waharddiad gyrru maes o law.

Mae hefyd yn drosedd i beidio â bod mewn rheolaeth o'ch cerbyd tra'n gyrru, ac fe all hyn gynnwys gweithredoedd fel bwyta neu yfed, defnyddio/tiwnio'r radio, newid CD neu raglennu offer GPS. Gall gyrrwyr gael eu dedfrydu o yrru'n heb ofal, neu hyd yn oed yrru'n beryglus, os yr achosir damwain wrth wneud unrhyw un o'r uchod.

8. UCHAFSWM ORIAU WRTH Y LLYW

Un o'r prif ffactorau sy'n achosi damweiniau ffordd yw **blinder wrth yrru**. Er nad oes arweiniad cyfreithiol ar uchafswm yr amser a ddylid ei dreulio'n gyrru heb doriadau / cyfnodau seibiant, ni ddylai unrhyw un ddreifio yn ddi-dor am nifer o oriau.

Dylai pob gweithiwr sy'n gyrru fel rhan o'i (g)waith fod yn ymwybodol o'r amser a ddylid ei dreulio yn gyrru a gweithio, a bod disgwyl iddynt gymryd cyfnodau digonol o seibiant. Mae'r canlynol yn ganllawiau a ystyrir yn enghreifftiau o arfer dda :

- uchafswm o 2 awr neu 100 milltir o yrru parhaus heb doriad, ac yna dylid cymryd seibiant o 15 munud o leiaf;
- uchafswm o 8 awr o yrru mewn unrhyw ddiwrnod gwaith;
- uchafswm o ddiwrnod gwaith o 12 awr, gan gynnwys cyfnodau o seibiant, os treulir 8 awr yn gyrru.

Mae gyrru yn ystod y nos yn gallu bod yn fwy peryglus, a dylid osgoi hyn os yn bosibl. Dylai staff deimlo'n rhydd i ofyn i gael aros mewn gwesty dros nos os ydynt yn teimlo'n rhy flinedig i ddreifio.

Os yw'r daith dros 3 awr o gartref yr unigolyn, ac yn enwedig pe bae'r cyfarfod yn dechrau yn fuan yn y bore, neu'n gorffen yn hwyr yn y dydd, dylai staff gael yr hawl i aros mewn gwesty dros nos.

9. TROSEDDAU AM BARCIO'N ANGHYFREITHLON

Tra ar fusnes CYNNAL, dylai pob cerbyd gael ei barcio'n ddiogel, gan barchu cyfyngiadau a rheoliadau cyfreithiol, ac o fewn rheolau cyffredinol meysydd parcio. Fe all anwybyddu unrhyw un o'r rhain arwain at ddirwy - a bydd y gyrrwr yn **bersonol** gyfrifol am dalu'r ddirwy.

Ni fydd CYNNAL yn talu unrhyw ddirwyon parcio ar ran ei staff.

10. DULLIAU GYRRU CYFFREDINOL

Dylai unrhyw weithiwr sy'n teithio ar fusnes CYNNAL ddilyn Cod y Ffordd Fawr ar bob achlysur, a chadw at unrhyw reoliadau traffig sy'n berthnasol i'r math o gerbyd a yrrir ganddynt. Dylai gyrrwyr sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn modd sydd ddim yn beryglus iddynt hwy eu hunain, eu teithwyr na rhai eraill sy'n defnyddio'r ffordd.

Pryd bynnag mae'n bosibl, cyngorir gyrrwyr i ddefnyddio ffyrdd mawr wrth deithio un ai i, rhwng neu o ysgolion; mae'r mwyafrif o ddamweiniau i gerbydau CYNNAL dros y 10 mlynedd olaf wedi digwydd ar 'lonydd cefn', ac fe setlwyd y ceisiadau yswiriant ar sail 'cnoc-am-gnoc'.

11. GOR-YRRU

Mae gor-yrru ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddir yn debygol o arwain at ddirwy ac o leiaf 3 pwynt cosb ar drwydded y gyrrwr. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, fe ellir derbyn dirwy neu gosb llawer uwch os yw'r drosedd yn sylweddol uwch na'r cyfyngiad cyflymder, neu fod cyflymder y cerbyd wedi creu damwain.

Dylai gyrrwyr fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau cyflymder sydd mewn grym ar unrhyw adeg.

Bydd gyrrwyr unigol yn bersonol gyfrifol am unrhyw ddedfrydau, dirwyon neu bwyntiau cosb a dderbynnir o ganlyniad i oryrru ar fusnes CYNNAL.

12. DULLIAU ERAILL O DEITHIO AR FUSNES CYNNAL

Mae'r rhan yma o'r canllawiau yn cyfeirio at faterion eraill sydd yn ymwneud â theithio ar fusnes y cwmni. Yn benodol mae'n rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- i) Cludiant cyhoeddus
- ii) Defnyddio cyfleusterau technegol, fideo-gynadledda a ffôn-gynadledda
- iii) Aros mewn gwesty tra ar fusnes y cwmni
- iv) Hyfforddiant Gyrru Pellach

i) Cludiant cyhoeddus

Yn aml iawn, mae costau teithio yn llawer rhatach wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus, yn ogystal â bod yn ddull mwy 'gwyrdd' o deithio. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r dull hwn o deithio, yn enwedig felly pan fo staff yn teithio'n bell.

ii) Defnyddio cyfleusterau technegol, fideo-gynadledda a ffôn-gynadledda

Pan fo hynny'n bosib, dylid ystyried cynnal cyfarfod ar y ffôn neu trwy ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda. Opsiwn arall yw cynnal sgwrs ar sawl llinell ffôn (*conference calling*), ond mae hynny'n ddibynnol ar yr offer sydd ar gael. Pan nad yw'r cyfarfod yn un sydd yn debygol o gymryd llawer iawn o amser, dylid o leiaf ystyried yr opsiwn hwn, a thrafod y posibilrwydd â'r unigolion eraill sydd yn rhan o'r cyfarfod.

Yn yr un modd, gellid ystyried defnyddio cyfarpar fideo-gynadledda, yn amlwg felly pan gynhelir cyfarfodydd o'r tu allan i'r sir. Mae cyfleusterau o'r fath ar gael yng Nghaernarfon, Llangefni ac yn Nolgellau, ond mae rhaid sicrhau fod cyfarpar ar gael yn y lleoliad y bwriedir cynnal y cyfarfod.

O ran y gwasanaeth cefnogi cyfrifiaduron, mae CYNNAL wedi buddsoddi mewn meddalwedd sy'n rhoi 'mynediad o bell' i gyfrifiaduron a servers ysgolion, sy'n golygu lleihad yn y nifer o siwrnai sydd angen eu gwneud i ysgolion i ddatrys problemau meddalwedd.

iii) Aros mewn gwesty tra ar fusnes CYNNAL

Fe allwn gael rhai sefyllfaoedd pan fo angen i'r aelod staff aros mewn gwesty dros nos yn rhinwedd ei (d)dyletswyddau a chyfrifoldebau. Os yw'n ymarferol, mae disgwyl i'r aelod staff ddewis ystafell o blith gwestai megis Travelodge neu Premier Inn, ac yna gwneud cais am ystafell. Dyma grynodedeb o'r drefn:

- yr aelod staff i drafod y cais gyda'i reolwr;
- y rheolwr llinell i benderfynu os yw'n caniatáu'r cais, a chodi'r Ffurflen Codi Archeb Swyddogol, gan sicrhau fod y cod gwariant perthnasol ar y ffurflen;
- bydd yr Uned Gyllid / Weinyddol yn archebu ystafell yn y gwesty.

Ni fydd unrhyw gais yn cael ei brosesu heb ganiatâd y rheolwr llinell.

iv) Hyfforddiant Gyrru Pellach

Fe all sefyllfa godi pryd y penderfynir y byddai aelod staff yn elwa o hyfforddiant gyrru, yn benodol felly pan fo cofnodion yn nodi fod gan yr unigolyn nifer o bwyntiau ar y drwydded yrru, neu ei fod/ei bod wedi bod ynghlwm â nifer o ddamweiniau wrth yrru ar fusnes y cwmni. Yn yr achosion hyn, dylid cysylltu gyda'r Swyddog Personél er mwyn trafod y mater.